CEWC CYMRU

COUNCIL FOR EDUCATION IN WORLD CITIZENSHIP - CYMRU

NEWSLETTER 05

SUMMER

Active citizenship for Wales and the world

A TEMPTING PROPOSITION

Julian Hodge Bank

We are pleased to invite all schools and colleges in Wales to participate in the **2005 Julian Hodge Bank Wales Schools Debating Championships**. This will be the 16th annual tournament, following last year's victory by Amman Valley School. Teams are sent their motion for debate at the beginning of the Autumn term, before taking part in one of eight regional rounds in October. The regional winners then take part in knockout rounds, culminating in the Final on 25 November. Debaters who want to brush up their skills before the competition can take part in one of our Debate Training Days in September. For details and entry forms, please contact **sheiladavies@wcia.org.uk**.

The two students from the winning team, and three other debaters selected from the competition, will form the Wales team that competes in the **2006 World Schools Debating Championships** (see below).

DEBATE Wales 2006

WORLD SCHOOLS DEBATING CHAMPIONSHIPS

Preparations are continuing for next year's World Schools Debating Championships, which take place in Cardiff from 4 to 14 July 2006. The tournament is being organised by our parent body, the Welsh Centre for International Affairs, and supported by the Wales Debating Federation. Martin Pollard, CEWC-Cymru's Education Officer, is Convenor of the event.

We would like to hear from schools and colleges that wish to host one or more debates within the tournament. We are also seeking 16-18 year-old student volunteers to undertake various roles, such as co-ordinating activities at host venues, accompanying debaters on coaches and welcoming teams from other countries. If you can help, please contact **convenor@wales2006.com**. An event takes place at the Temple of Peace this July, providing information about the World Championships and Wales's role as host nation.

www.cewc-cymru.org.uk

PHILOSOPHY AND DEMOCRACY WORK NEARS FRUITION

P4C FOR PSE

Our project using Philosophy for Children (P4C) in conjunction with Personal and Social Education (PSE) is nearing completion. Martin Pollard has devised an introductory pack for teachers wishing to use P4C to develop pupils' moral awareness and sense of community responsibility at Key Stage 2. This is available as an extension of *Citizenship Today*, our on-line resource for Key Stages 1 and 2 which also features 45 lesson plans on human rights, diversity and democracy. Registration costs £20 and can be completed at **www.cewc-cymru.org.uk**. The P4C guidance is also available as a photocopied pack: the price, including postage, is £6 for CEWC-Cymru members or £8 for non-members.

Martin has also developed an in-service training course which provides practical examples of the links between PSE, P4C and global citizenship education. The first of these sessions, for Blaenau Gwent primary school headteachers, took place in June. For more information about the pack or training sessions, e-mail **martinpollard@wcia.org.uk**.

TRAINING FOR DEMOCRACY

A Hillside student expresses how he feels when he's not listened to.

This project, in which Kate Wolstenholme has trained teachers to set up effective school councils and other democratic opportunities for students, is also in its final stages. Kate has completed a School Councils UK "Training the Trainer" course and can now offer approved training with a Welsh slant. She has also designed a guidance package which includes case studies, lesson plans and other suggestions for those wishing to establish or improve a school council. Kate is also sitting on the panel, led by Save the Children, advising the Welsh Assembly Government on the best course of action once the guidelines have been released.

A number of training sessions have already been provided, with several more planned for June and July. Finally, outcomes from *Training for Democracy* will be disseminated at a Special Educational Needs conference in Wrexham in June. If your school would like to receive a training session, or a copy of the package, please contact **katewolstenholme@wcia.org.uk**.

We thank the Esmée Fairbairn Foundation and the Electoral Commission respectively for their support of these two projects.

TOMORROW'S LEADERS, TODAY'S ISSUES

50 students sampled Welsh politics directly in April, when they took part in CEWC-Cymru's **2005 Model National Assembly for Wales**. This event emphasised the collaboration which goes on behind the scenes at the Assembly, with students convening as committees to negotiate agreed positions on school dinners, arts funding, Gypsies and Travellers, and the impact of major sporting fixtures. Assembly Members Helen Mary Jones, Peter Black and Lorraine Barrett, and Labour Group worker Anthony Cooper, aided in this task, before students convened in the Assembly Chamber itself to debate in a plenary session.

ARE YOU CITAWARE?

Young people discuss global matters at a CEWC-Cymru event.

CEWC-Cymru is to work with its parent organisation, the Welsh Centre for International Affairs (WCIA), on an Europe-related project, **Citaware**. Funded by the European Commission, this will raise awareness of European citizenship issues among schools and civil society in Wales. Our role will be to provide teaching materials and school visits relating to European issues, concluding with a European Youth Parliament in north Wales. The WCIA will host a series of conferences on the enlarged European Union and its relationship to the wider world, with a focus on religious tolerance, pluralism and conflict prevention. The internet newspaper EuropaWorld is also involved in **Citaware**. For more information, please e-mail **martinpollard@wcia.org.uk**.

EQUAL ACCESS TO CITIZENSHIP EDUCATION

CEWC-Cymru has been working with a network of groups across Wales and Europe in recent months, on an initiative to benefit disenfranchised young people in a European Union funded project called **Equal Shares for All**. The project focuses on young people with learning and physical disabilities, at risk of being unemployed, and at risk of becoming homeless.

Our role has been providing input for students who are in special schools or secure units, developing their key skills for employment through citizenship work. In her partnership with Hillside Secure Unit near Neath, Kate Wolstenholme has developed and piloted a series of key skills units which will culminate in a performance video. Alongside human rights, communication and participation skills the students have developed drama techniques, using role-playing to improve their levels of empathy with others.

Design elfen.co.uk

TEL (029) 2022 8549 FAX (029) 2064 0333 E-MAIL cewc@wcia.org.uk Reg. charity no. 1048759

CEWC-CYMRU TEMPLE OF PEACE • CATHAYS PARK • CARDIFF • CF10 3AP

CEWC CYMRU

CYNGOR ADDYSG MEWN DINASYDDIAETH BYD - CYMRU

CYLCHLYTHYR 05

HAF

Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

CYNNIG DENIADOL

Julian Hodge Bank

Mae'n bleser gennym wahodd holl ysgolion a cholegau Cymru i gymryd rhan ym **Mhencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru Banc Julian Hodge 2005**. Dyma fydd y 16eg twrnamaint blynyddol, yn dilyn buddugoliaeth y llynedd gan Ysgol Dyffryn Aman. Bydd timau'n derbyn eu cynnig ar gyfer y ddadl ddechrau tymor yr Hydref, cyn cymryd rhan yn un o wyth o'r rowndiau rhanbarthol ym mis Hydref. Bydd yr enillwyr rhanbarthol wedyn yn cymryd rhan yn y rowndiau cynderfynol, yn diweddu gyda'r Rownd Derfynol ar 25 Tachwedd. Gall dadleuwyr sydd am wella eu sgiliau cyn y gystadleuaeth gymryd rhan yn un o'n Dyddiau Hyfforddi Dadlau ym mis Medi. I gael manylion a ffurflenni cais, cysylltwch â **sheiladavies@wcia.org.uk**.

Bydd y ddau fyfyriwr o'r tîm buddugol, a thri dadleuwr arall gaiff eu dewis o blith y cystadleuwyr eraill yn y gystadleuaeth, yn ffurfio tîm Cymru i gystadlu ym **Mhencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd 2006** (gweler isod).

DADL Cymru 2006

PENCAMPWRIAETH AU DADLAU YSGOLION Y BYD

Mae'r gwaith paratoi'n mynd yn ei flaen ar gyfer Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd a gynhelir yng Nghaerdydd rhwng 4 a 14 Gorffennaf 2006. Mae'r twrnamaint yn cael ei drefnu gan ein rhiant gorff, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA), ac yn cael ei gefnogi gan Ffederasiwn Dadlau Cymru. Martin Pollard, Swyddog Addysg CEWC-Cymru, yw Cynullydd y digwyddiad.

Fe hoffem glywed gan ysgolion a cholegau sy'n dymuno cynnal un neu ragor o'r dadleuon yn y twrnamaint. Rydym hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr 16-18 oed i gyflawni amryw o rolau, megis cydlynu gweithgareddau mewn lleoliadau sy'n cynnal dadleuon, mynd gyda'r dadleuwyr ar goetsis a chroesawu timau o wledydd eraill. Os gallwch chi helpu, cysylltwch â **convenor@wales2006.com**. Cynhelir digwyddiad yn y Deml Heddwch ym mis Gorffennaf fydd yn darparu gwybodaeth am Bencampwriaethau'r Byd a rôl Cymru fel y wlad sy'n eu croesawu.

www.cewc-cymru.org.uk

GWAITH AR ATHRONIAETH A DEMOCRATIAETH YN DWYN FFRWYTHAU

AIB AR GYFER ABCH

Mae'n prosiect yn defnyddio Athroniaeth i Blant (AiB) mewn cydweithrediad ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn tynnu tua'r terfyn. Mae Martin Pollard wedi dyfeisio pecyn cyflwyno i athrawon sy'n dymuno defnyddio AiB i ddatblygu ymwybyddiaeth foesol disgyblion ac ymdeimlad o gyfrifoldeb cymunedol yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae hwn ar gael fel estyniad o *Ddinasyddiaeth Heddiw*, ein hadnodd ar-lein ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2 sydd hefyd yn cynnwys 45 cynllun gwers ar hawliau dynol, amrywiaeth a democratiaeth. £20 yw pris cofrestru a gellir gwneud hynny ar **www.cewc-cymru.org.uk**. Mae'r canllawiau AiB hefyd ar gael fel pecyn wedi'i lungopïo: £6 yw'r pris, yn cynnwys cludiant, i aelodau CEWC-Cymru neu £8 i'r rhai nad ydynt yn aelodau.

Mae Martin hefyd wedi datblygu cwrs hyfforddiant mewn swydd sy'n darparu enghreifftiau ymarferol o'r cysylltiadau rhwng ABCh, AiB ac addysg ddinasyddiaeth fyd-eang. Cynhaliwyd y cyntaf o'r sesiynau hyn, ar gyfer penaethiaid cynradd Blaenau Gwent, ym mis Mehefin. Am ragor o wybodaeth am y pecyn neu'r sesiynau hyfforddi, e-bostiwch **martinpollard@wcia.org.uk**.

HYFFORDDI AR GYFER DEMOCRATIAETH

Myfyriwr o Hillside yn mynegu sut y mae'n teimlo pan nad yw ei farn yn cael ei ystyried.

Mae'r prosiect hwn, lle mae Kate Wolstenholme wedi bod yn hyfforddi athrawon i sefydlu cynghorau ysgol effeithiol a darparu cyfleoedd democrataidd eraill i ddisgyblion, hefyd yn tynnu tua'r terfyn. Mae Kate wedi cwblhau cwrs School Councils UK "Hyfforddi'r Hyfforddwr" a bellach gall gynnig hyfforddiant cymeradwy gyda gogwydd Cymreig. Mae Kate hefyd wedi dylunio pecyn cyfarwyddo sy'n cynnwys astudiaethau achos, cynlluniau gwersi ac awgrymiadau eraill ar gyfer y rhai sy'n dymuno sefydlu neu wella cyngor ysgol. Mae Kate hefyd yn aelod o'r panel, dan arweiniad Achub y Plant, sy'n cynghori'r Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol ar y ffordd orau ymlaen unwaith y bydd y canllawiau hyn wedi cael eu cyhoeddi.

Mae nifer o sesiynau hyfforddi wedi cael eu darparu eisoes, gyda llawer mwy wedi'u trefnu ar gyfer Mehefin a Gorffennaf. Yn olaf, bydd deilliannau *Hyfforddi ar gyfer Democratiaeth* yn cael eu lledaenu mewn cynhadledd Anghenion Addysgol Arbennig yn Wrecsam ym mis Mehefin. Os hoffai'ch ysgol chi dderbyn sesiwn hyfforddi, neu gopi o'r pecyn, cysylltwch â **katewolstenholme@wcia.org.uk**.

Diolch i Sefydliad Esmée Fairbairn a'r Comisiwn Etholiadol yn ôl eu trefn, am eu cefnogaeth i'r ddau brosiect.

ARWEINWYR YFORY, MATERION HEDDIW

Bu 50 o fyfyrwyr yn cael blas uniongyrchol ar wleidyddiaeth Cymru ym mis Ebrill wrth gymryd rhan ym **Model Cynulliad Cenedlaethol Cymru CEWC-Cymru am 2005**. Pwysleisiodd y digwyddiad y cydweithrediad sy'n digwydd yn y cefndir yn y Cynulliad, gyda myfyrwyr yn cynnull fel pwyllgorau i drafod safbwyntiau cytûn ar ginio ysgol, cyllido'r celfyddydau, Sipsiwn a Theithwyr, ac effaith achlysuron chwaraeon mawr. Bu'r Aelodau Cynulliad Helen Mary Jones, Peter Black a Lorraine Barrett, a gweithiwr gyda'r Grŵp Llafur, Anthony Cooper, yn helpu gyda'r dasg cyn i fyfyrwyr ymgynnull yn Siambr y Cynulliad ei hun i ddadlau mewn sesiwn lawn.

YDYCH CHI'N CITAWARE?

Pobl ifanc yn trafod materion byd-eang mewn achlysur CEWC-Cymru.

Bydd CEWC-Cymru yn gweithio gyda'i riant sefydliad, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) ar brosiect Ewropeaidd, **Citaware**. Bydd y prosiect yn cael ei ariannu gan y Comisiwn Ewropeaidd, a bydd yn codi ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth Ewropeaidd mewn ysgolion ac o fewn cymdeithas sifil yng Nghymru. Ein rôl ni fydd darparu deunydd addysgu ac ymweliadau ag ysgolion yn sôn am faterion Ewropeaidd, gan ddiweddu gyda Senedd Ieuenctid Ewropeaidd yng ngogledd Cymru. Bydd y WCIA yn cynnal cyfres o gynadleddau ar yr Undeb Ewropeaidd estynedig a'i gysylltiad â'r byd ehangach, gyda ffocws ar oddefgarwch crefyddol, plwraliaeth ac atal gwrthdaro. Mae'r papur newydd ar y rhyngrwyd, EuropaWorld, hefyd yn cymryd rhan yn **Citaware**. Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch **martinpollard@wcia.org.uk**.

MYNEDIAD CYFARTAL AT ADDYSG DINASYDDIAETH

Mae CEWC-Cymru wedi bod yn gweithio gyda rhwydwaith o grwpiau ar draws Cymru ac Ewrop dros y misoedd diwethaf, ar fenter fydd yn rhoi budd i bobl ifanc sydd wedi'u dadryddfreinio mewn prosiect wedi'i ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd o'r enw **Cyfrannau Cyfartal i Bawb**. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar bobl ifanc gydag anableddau dysgu a chorfforol, rhai sydd mewn perygl o fod yn ddi-waith, a rhai sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref.

Ein rôl ni oedd darparu mewnbwn i fyfyrwyr sydd mewn ysgolion arbennig neu unedau diogel, gan ddatblygu eu sgiliau allweddol ar gyfer cyflogaeth drwy waith dinasyddiaeth. Yn ei phartneriaeth gydag Uned Ddiogel Hillside ger Castell-nedd, mae Kate Wolstenholme wedi datblygu cyfres o unedau sgiliau allweddol, ac wedi cynnal peilot ohonynt, fydd yn diweddu gyda fideo o berfformiad. Ochr yn ochr â hawliau dynol, sgiliau cyfathrebu a chyfranogi, mae'r disgyblion wedi datblygu technegau drama, gan ddefnyddio chwarae rôl i wella lefelau eu hempathi gydag eraill.

FFÔN (029) 2022 8549 FFACS (029) 2064 0333 E-BOST cewc@wcia.org.uk Elusen gof. rhif 1048759

CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH • PARC CATHAYS • CAERDYDD • CF10 3AP

Dylunio elfen.co.uk